# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Will Evans | **Adran Etholiadol:** | Pontybrenin |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Cymunedau Cryfach |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd cyngor misol yng Nghlwb Pêl-droed Pentre'r Ardd rhwng 11.30am a 12.30pm (o leiaf awr) ac es i i'r afael â'r holl faterion/gwynion yn brydlon. Roeddwn i hefyd yn bresennol mewn cymorthfeydd lleol yr heddlu a chyfarfodydd misol Cyngor Tref Llwchwr, y mae'r cofnodion ar gael ar wefan y cyngor yn www.llwchwrtowncouncil.gov.uk. Mae'r cyngor tref yn gwasanaethu ac yn cefnogi preswylwyr Pontybrenin, Pentre'r Ardd a wardiau Llwchwr, trwy ychwanegu at rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Ddinas a Sir Abertawe. Er enghraifft, cyfleusterau yn y Neuadd Les, basgedi crog ac arddangosfeydd blodau gwyllt, Gorymdaith Llusernau'r Nadolig ac arddangosfa tân gwyllt ar y cyd â Chyngor Tref Gorseinon, darparu seddi cymunedol a dyfarnu grantiau ariannol i achosion teilwng yn ardal Llwchwr.

Lluniais a dosbarthais gylchlythyrau a oedd yn amlygu materion lleol, a bûm yn ymdrin â nifer sylweddol o alwadau ffôn ac e-byst ar gyfer etholwyr, gan geisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o destunau. Rhoddais i fy nghefnogaeth a gweithredais i'n gadarnhaol lle bynnag y bo angen.

Roeddwn yn aml yn mynd am dro yn fy ward ac yn rhoi gwybod i adran briodol y cyngor am ddiffygion megis tyllau yn y priffyrdd, lampau stryd heb eu goleuo, dodrefn stryd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon gwasgarog er mwyn iddi weithredu ar unwaith.

Bûm yn ymweld â holl safleoedd ceisiadau cynllunio yn ward Pontybrenin a threfnais i ymweliadau lle bo angen. Cysylltais yn rheolaidd â'r Tîm Heddlu Cymdogaeth lleol yng Ngorseinon gan gyfeirio cwynion preswylwyr megis goryrru, parcio diwahaniaeth, cerbydau modur yn achosi rhwystr diangen ar y briffordd, baw cŵn a sbwriel. Roeddwn hefyd wedi hysbysu swyddogion gorfodi'r cyngor am gwynion o ran mynd yn groes i Orchmynion Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Llinellau Melyn) a chamddefnydd ohonynt, gan ofyn iddynt fod yn bresennol yn yr ardaloedd hyn pan fo hynny'n briodol.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Aelod y Cabinet dros Gymunedau Cryfach a Thlodi, sef blaenoriaeth gorfforaethol drosgynnol ar gyfer y cyngor. Mae trechu tlodi a'i effaith ar unigolion, ynghyd â chyrhaeddiad addysgol, cyfleoedd cyflogaeth a thwf economaidd yn hanfodol wrth gyflawni nodau ac amcanion strategol y cyngor.

Rwyf hefyd wedi gwasanaethu ar y cyrff canlynol:

Grŵp Llywio 'Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel
Fforwm Partneriaeth Tlodi
Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniant Cymunedol (Cadeirydd)
Fforwm Darparwyr Penderi
Cyngor Ymgynghorol Myfyrwyr ar Addysg Grefyddol
Ymddiriedolwr/Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon (Cadeirydd)
Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Tre Uchaf
Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Pontybrenin
Cyngor Tref Llwchwr
Ymddiriedolaeth Tref Casllwchwr (Is-gadeirydd)

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi treulio swm mawr o'm hamser yn cynnwys cynllunwyr a'm hetholwyr ynghylch cynigion drafft y Cynllun Datblygu Lleol a'i effaith bosib enfawr ar symudiadau traffig ym Mhontybrenin a'r ardaloedd cyfagos yn y dyfodol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus i drafod y mater hwn, ynghyd ag isadeiledd priffyrdd a'r effeithiau amgylcheddol ehangach ar oddeutu 1600 o gartrefi newydd arfaethedig y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu yn ardaloedd Pentre'r Ardd a Llewitha dros y 15 mlynedd nesaf. Ym mis Medi 2017, roeddwn i'n bresennol yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus, a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gorseinon gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru, ynglŷn â chais i gyfnewid tir o dan Adran 16 Deddf Tiroedd Comin 2006. Clustnodwyd y tir comin dan sylw ar gyfer mynedfa newydd i'r stâd dai arfaethedig ym Mhentre'r Ardd (Cais Cynllunio 2016/1478).

Roeddwn i hefyd yn bresennol yn y Sesiynau Gwrandawiad Annibynnol ffurfiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, a gynhaliwyd yn y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe, a siaradais yn erbyn cynigion ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr ym Mhentre'r Ardd a Llewitha ar sail isadeiledd ffyrdd annigonol, problemau traffig a diffyg cyfleusterau iechyd.

Hysbysebwyd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Ffyrdd parthed cyfyngiad pwysau 7.5 tunnell (Ac Eithrio Mynediad) ar Heol Abertawe, Pentre'r Ardd a'i anfon i gael Ymgynghoriad Cyhoeddus. Disgwylir iddo ddod i rym ar ddiwedd 2018.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwyf wedi cymryd rhan yn y trafodaethau parhaus i ddatblygu cyswllt beicio 1.4km Pontybrenin o Bentre'r Ardd i Dregŵyr, sydd wedi'i ohirio oherwydd materion tir cyfreithiol sy'n cynnwys 'Ymddiriedolaeth Gwlad yr Haf'. Sicrhawyd cyllid bellach ac rwyf aros yn awyddus am ganlyniad terfynol.

Mae dau ddatblygiad tai newydd (220 o anheddau) yn Ward Pontybrenin bron wedi cael eu cwblhau ym Meysydd Pontybrenin (Persimmon) a Horizon Walk (Barratts). Dyrannwyd y ddau safle hyn ar gyfer datblygiad tai mewn Cynlluniau Datblygu Trefol olynol, yn dyddio'n ôl flynyddoedd lawer. Gwrthodwyd cais cynllunio diweddar ar gyfer 84 o dai ychwanegol ym Meysydd Pontybrenin gan y Pwyllgor Cynllunio ar ôl gwrthwynebiadau gan breswylwyr lleol yr oeddwn yn eu cefnogi'n llwyr.

Defnyddiwyd arian o'm cyllideb gymunedol cynghorwyr (lwfans amgylcheddol gynt) ar gyfer y prosiectau canlynol. Ceir manylion ar wefan y cyngor yn https://www.abertawe.gov.uk/cyllidebgymunedolcynghorwyr

1. 13/10/17 Gwelliannau i droedffyrdd a goleuadau ar Ffordd Bryngwyn, Pentre'r Ardd.

2. 02/02/18 Gwelliannau i droedffyrdd a goleuadau ar Faes Dafydd, Pontybrenin.

3. 06/03/18 Rhoi arian i glwb pêl-droed Pentre'r Ardd ar gyfer cyfleusterau ar y tiroedd.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Uwch-Gyflog (Aelod y Cabinet): £32,100

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20/10/2018 |